O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 346 (Cy. 58)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Loggerheads, Sir Ddinbych) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed	*10 Chwefror 2012*
Yn dod i rym	*21 Chwefror 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd neu ei wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Chwefror 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Loggerheads, Sir Ddinbych) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 07:30 o'r gloch ar 21 Chwefror 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A494 yn Loggerheads yn Sir Ddinbych sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at Y Waun Rwyddfyd, i'r dwyrain o Wernymynydd i